



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gymunedol Twynyrodyn
Gilfach Cynon
Twynyrodyn
Merthyr Tudful
CF47 0LW**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2015

Cyd-destun

Mae Ysgol Gymunedol Twynyrodyn yn nhref Merthyr Tudful.

Mae 327 o ddisgyblion amser llawn rhwng 4 a 11 ar y gofrestr, sy'n cael eu haddysgu mewn 12 dosbarth. Yn ychwanegol, mae 35 o ddisgyblion yn mynychu'r meithrin yn rhan-amser. Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau awdurdod lleol ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 sydd ag anawsterau dysgu cymedrol.

Mae tua 18% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae bron pob disgybl o darddiad ethnig Prydeinig a daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ychydig iawn o ddisgyblion. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn famiaith.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 25% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol. Bu chwech o waharddiadau cyfnod penodol yn y flwyddyn ddiwethaf.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2012. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol yn 2011.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Twynyrodyn yn 2014-2015 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,387 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Merthyr Tudful yw £4,192 a'r isafswm yw £3,365. Mae Ysgol Gymunedol Twynyrodyn yn safle 21 o'r 23 ysgol gynradd ym Merthyr Tudful o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae mentrau diweddar i wella medrau ysgrifennu a rhif disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau
- Mae gwaith yn llyfrau disgyblion yn dangos eu bod yn gwneud cynnydd da ar y cyfan dros gyfnod
- Mae bron pob disgybl yn dangos medrau dysgu annibynnol da yn y Cyfnod Sylfaen
- Mae ymddygiad yn dda ac mae disgyblion yn gwrtais a moesgar
- Mae profiadau dysgu yn cymell ac yn ennyn diddordeb disgyblion

Fodd bynnag:

- Nid yw deilliannau disgyblion mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn cymharu'n dda â deilliannau disgyblion mewn ysgolion tebyg dros gyfnod
- Mae cyfraddau presenoldeb yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf yn gyson o gymharu ag ysgolion tebyg
- Nid yw gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer nodi a chynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn sicrhau bod pob un ohonynt yn gwneud cynnydd addas
- Nid oes digon o gyfleoedd i hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion ac nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli
- Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn destun pryder sylweddol

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae gan aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth rolau a chyfrifoldebau clir
- Mae aelodau o bwyllgor safonau'r corff llywodraethol yn darparu lefel dda o her i uwch arweinwyr mewn perthynas â deilliannau disgyblion
- Ceir cyswllt clir rhwng canfyddiadau hunanarfarnu'r ysgol a'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol
- Mae cysylltiadau da gyda rheolwyr medrau sylfaenol yn yr awdurdod lleol wedi helpu i ysgogi gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd yn yr ysgol
- Caiff cynorthwywyr addysgu eu rheoli'n dda ar y cyfan, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cyfraniad cryf at gefnogi cynnydd ac ymddygiad disgyblion

Fodd bynnag:

- Mae newidiadau mewn staffio dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith negyddol ar ddeilliannau disgyblion
- Nid yw uwch arweinwyr wedi ymgymryd â rheoli perfformiad yn unol â gofynion
- Nid yw prosesau hunanarfarnu wedi bod yn ddigon trylwyr dros gyfnod
- Nid yw cyfarfodydd y corff llywodraethol llawn yn canolbwyntio'n ddigon da ar feysydd allweddol o waith yr ysgol

Argymhellion

- A1 Gwella deilliannau ar gyfer disgyblion mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol ar y lefelau disgwylidig a'r lefelau uwch na'r disgwyl
- A2 Gwella medrau ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig rhai bechgyn
- A3 Codi safonau disgyblion mewn llafaredd yn Gymraeg
- A4 Cynyddu lefel presenoldeb disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- A5 Mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch a diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad
- A6 Gwella gweithdrefnau a phrosesau ar gyfer nodi a chynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- A7 Cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol ar gyfer gweithred ddyddiol o addoli
- A8 Cyflwyno systemau trylwyr sy'n galluogi uwch arweinwyr i sicrhau ansawdd gwaith yr ysgol yn effeithiol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, tra bod medrau llythrennedd a rhifedd lleiafrif ohonynt ychydig islaw'r lefel ddisgwyliedig. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar oedolion. Mae llawer ohonynt yn siarad yn glir wrth ymateb i gwestiynau ac ymuno mewn trafodaethau dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando gyda diddordeb ar oedolion a'u cyfoedion. Maent yn siarad gyda hyder cynyddol a mwyfwy o eirfa, er enghraifft wrth esbonio eu rhesymu mewn mathemateg.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn darllen. Mae'r disgyblion mwy abl yn darllen yn gywir a gyda dealltwriaeth dda. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth ffonig i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Gallant siarad am beth sy'n digwydd mewn llyfrau a dweud beth allai ddigwydd nesaf mewn stori. Fodd bynnag, ni all darllenwyr llai abl gymhwyso eu gwybodaeth ffonig wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd ac nid ydynt bob amser yn deall yr hyn y maent yn ei ddarllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso ystod o strategaethau i'w helpu i ddarllen. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen ar goedd yn dda mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb y gwrandawr, er enghraifft trwy newid eu llais i ddangos pan fydd cymeriadau'n siarad mewn stori. Mae darllenwyr mwy abl yn siarad yn hyderus am lyfrau. Dangosant ddealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi ei ddarllen a gallant lunio casgliadau o'r testun. Defnyddiant eu medrau ymchwil yn dda, er enghraifft gan ddefnyddio'r rhynggrwyd i ddarganfod achosion a symptomau afiechydon fel niwmonia. Fodd bynnag, nid yw darllenwyr llai abl bob amser yn dewis llyfrau sy'n briodol i'w gallu darllen, ac o ganlyniad, maent yn ei chael yn anodd deall yr hyn y maent yn ei ddarllen.

Mae disgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu geiriau syml yn annibynnol gan ddefnyddio eu gwybodaeth ffonig yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu'n briodol ac yn gwneud dewisiadau da o ran geirfa, er enghraifft wrth ysgrifennu'n berswadiol am deisennau cwpan neu esbonio am eu 'harch-arwyr' bywyd go iawn. Mae'r sillafu'n gywir ar y cyfan, a lle nad yw'n gywir, mae disgyblion yn defnyddio mathau eraill priodol o ffoneg. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn briodol ac yn dechrau defnyddio ystod ehangach o atalnodi. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn llai aml ac nid yw bechgyn yn dueddol o ysgrifennu cystal â merched. Mae disgyblion mwy abl yn creu ysgrifennu sy'n ennyn diddordeb y darllenydd, er enghraifft wrth gynllunio cyflwyniadau ar facteria a firsau. Defnyddiant baragraffau ac atalnodi'n briodol i strwythuro eu hysgrifennu. Mae medrau llawysgrifen disgyblion yn anghyson ar draws y cyfnod allweddol, er bod cyflwyniad gwaith y disgyblion hyn wedi gwella'n ddiweddar. Trwy gydol y cyfnod allweddol, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml. O ganlyniad, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y gallent yn eu gwaith ysgrifenedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Gallant gymhwyso'r rhain yn effeithiol yn ei gwaith, er enghraifft wrth fesur mewn centimetrau neu ddweud yr amser. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion mwy abl yn datblygu medrau da mewn trin rhifau ac yn cyfrif ffracsiynau a chanrannau cyfwerth yn gyflym a chywir. Mae disgyblion hŷn yn cymhwyso eu medrau'n dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddehongli data yn ymwneud â'r pla mewn gwersi hanes.

Mae llyfrau disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos bod eu medrau mewn gwaith ysgrifennu a rhif wedi gwella'n ddiweddar.

Mae bron pob disgybl sy'n cael cymorth ychwanegol ar gyfer rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol o ran datblygu eu medrau Cymraeg wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion siarad am destunau cyfarwydd gan ddefnyddio amser y presennol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn ddigon annibynnol. Mae disgyblion mwy abl yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddarllen, ond nid ydynt bob amser yn ynganu geiriau ac ymadroddion yn gywir.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn 2014 yn gosod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion ar y deilliant 6 sy'n uwch na'r disgwyl yn 2014 yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg mewn datblygiad llythrennedd a mathemategol fel ei gilydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel 4 ddisgwyliedig yn 2014 yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer Saesneg o gymharu ag ysgolion tebyg, ond yn y 50% is ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth. Ar y lefel 5 uwch na'r disgwyl, mae perfformiad disgyblion yn 2014 yn gosod yr ysgol yn y 50% is ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2014, ni pherfformiodd merched cystal â bechgyn mewn medrau llythrennedd a rhifedd ar y deilliannau disgwyliedig. Fodd bynnag, perfformiodd merched yn well na bechgyn ar y deilliant uwch na'r disgwyl. Yng nghyfnod allweddol 2, perfformiodd merched yn well na bechgyn ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch na'r disgwyl mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig yn wan iawn mewn ysgrifennu, a thua hanner ohonynt yn unig sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2014.

Yn 2014, yn y Cyfnod Sylfaen, llwyddodd pob un o'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyflawni'r lefelau disgwyliedig mewn datblygiad llythrennedd a mathemategol, ond ni wnaethant berfformio cystal â'u cyfoedion ar y lefel uwch na'r disgwyl. Roedd patrwm tebyg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Nid yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol bob amser yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Lles: Digonol

Mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac mae safonau ymddygiad yn dda. Mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwrtais a charedig. Dangosant barch, gofal a phryder at bobl eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb, cymhelliant a brwdfrydedd ac mae llawer o ddisgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith. Gall llawer ohonynt ddatrys problemau a mynd i'r afael â gweithgareddau yn annibynnol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o beth yw bod yn iach. Mae mwyafrif ohonynt yn mwynhau cymryd rhan yn yr amrywiaeth addas o weithgareddau corfforol allgyrsiol a gynigir gan yr ysgol ac yn deall y modd y mae hyn yn helpu i fyw bywyd iach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n hapus, a'u bod yn cael gofal a chymorth da. Mae bron pob disgybl yn hyderus y bydd staff yn trin unrhyw bryderon o ddifrif ac yn gweithredu arnynt yn gyflym ac yn deg.

Mae'r cyngor ysgol yn gweithio'n effeithiol ac yn cymryd cyfrifoldeb am agweddau penodol ar fywyd yr ysgol. Mae aelodau o'r cyngor yn ystyried safbwyntiau disgyblion eraill a, gyda'i gilydd, maent yn cymryd rhan bwysig mewn gwneud penderfyniadau am yr ysgol. Mae'r cyngor wedi awgrymu gwelliannau i'r ystafelloedd cotiau yn ddiweddar ac mae wrthi'n dylunio logo newydd ar gyfer eu gwisg ysgol ar hyn o bryd.

Nid yw presenoldeb wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ac mae wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf yn gyson o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r ysgol wedi cyflwyno menter newydd i wella presenoldeb disgyblion yn ddiweddar. Fodd bynnag, newydd ddechrau datblygu y mae hyn, ac mae'n rhy gynnar i weld ei heffaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon, er bod rhai ohonynt yn hwyr yn gyson.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Digonol

Profiadau dysgu: Digonol

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu priodol ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o gynlluniau gwaith wedi'u cynhyrchu yn fasnachol. Mae'r rhain yn helpu athrawon i ddarparu gweithgareddau priodol sy'n adeiladu'n raddol ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion trwy destunau diddorol. Nid yw'r ysgol wedi rhoi trefniadau ar waith yng nghyfnod allweddol 2 i gynnwys disgyblion mewn cynllunio eu dysgu eu hunain.

Mae'r ysgol wedi dechrau datblygu cynlluniau ar gyfer rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Mae athrawon wedi dechrau cynllunio'r modd y byddant yn cyflwyno disgyblion i fathau gwahanol o destun ar draws y cwricwlwm, ond nid yw hyn wedi'i ddatblygu'n llawn eto. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a gwyddoniaeth yn anghyson ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau da o gynlluniau sy'n galluogi disgyblion i ddefnyddio taenlenni'n dda mewn gwaith testun a chynnal ymchwiliadau gwyddoniaeth gan arwain atynt yn defnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Ceir tystiolaeth o gynllunio priodol ar y cyfan i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion, er nad yw athrawon bob amser yn rhoi hyn ar waith yn effeithiol yn ymarferol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru yn dda. Mae ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb, er enghraifft â Llancaiach Fawr, yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn briodol.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth dda ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd. Mae eco bwllgor yr ysgol yn goruchwyllo'r gwaith hwn ac mae ei aelodau'n annog pawb i weithredu mewn ffyrdd cynaliadwy trwy gyflwyno gwobr eco wythnosol. Gall mwyafrif y disgyblion esbonio sut i leihau ynni a lleihau gwastraff trwy weithgareddau fel ailgylchu. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am wledydd eraill, er enghraifft am fywyd ym Brasil.

Addysgu: Digonol

Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio ystod addas o strategaethau addysgu yn effeithiol i ennyn diddordeb y disgyblion ac ymgysylltu â nhw. Mae'r athrawon hyn yn holi cwestiynau sy'n herio syniadau disgyblion ac yn gwirio eu dealltwriaeth yn dda. Yn y gwersi mwyafrif effeithiol hyn, mae rhediad y dysgu'n dda ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Fodd bynnag, mewn rhai dosbarthiadau, nid yw athrawon yn gweddu gwaith yn dda i fodloni anghenion pob disgybl. Pan fydd hyn yn digwydd, nid yw disgyblion yn ymgymryd yn dda â thasgau ac nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol mewn gwersi ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wna disgyblion.

Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae mwyafrif ohonynt yn cynnwys sylwadau defnyddiol ar yr hyn y mae disgyblion wedi'i wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae lleiafrif ohonynt yn annog disgyblion i ddefnyddio hunanasesu'n dda, a phan fydd hyn yn digwydd, mae disgyblion yn dechrau arfarnu eu gwaith eu hunain yn effeithiol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae ansawdd y marcio yn anghyson ac nid yw sylwadau athrawon bob amser yn ddefnyddiol o ran dangos i ddisgyblion beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae dysgwyr wedi cyflwyno gweithdrefnau priodol yn ddiweddar i sicrhau bod athrawon yn llunio barnau cywir am yr hyn y gall disgyblion ei wneud. O ganlyniad, mae asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ddibynadwy erbyn hyn.

Mae adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth ac yn bodloni gofynion statudol. Fodd bynnag, mae'r targedau a osodir ar gyfer disgyblion ac sy'n cael eu rhannu â rhieni yn rhy fras ar y cyfan i alluogi rhieni i wybod sut yn benodol y gallant helpu eu plant i wella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol

Rhoddir cyfleoedd addas i staff hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn ymweld â chanolfan theatr leol lle mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyffrous sy'n cefnogi drama a chelf yn y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer

hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, mae'n darparu llai o gyfleoedd i hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion ac nid yw'n cydymffurfio'n llawn â gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli.

Caiff yr ysgol ystod eang o gymorth priodol gan asiantaethau allanol, fel y seicolegydd addysg, y tîm nam ar y clyw a'r golwg, allgymorth a chymorth gydag ymddygiad.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac maent yn destun pryder sylweddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn wan. Nid yw'r gweithdrefnau'n ddigon trylwyr ac nid oes cyfeiriad clir ar gyfer staff. Ceir rhai enghreifftiau o gynlluniau addysg unigol o ansawdd da sy'n targedu anghenion disgyblion, ond mae llawer o gynlluniau'n cynnwys targedau sy'n rhy gyffredinol ac nid ydynt yn bodloni anghenion penodol y disgybl. Mae llawer ohonynt wedi dyddio ac nid yw athrawon wedi arfarnu cynnydd disgyblion yn erbyn y targedau a osodir ar eu cyfer. Mae'r trefniadau grwpio ar gyfer addysgu llythrennedd a rhifedd yn briodol ar y cyfan ac yn rhoi rhywfaint o gymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid oes meini prawf clir na systemau gwrthrychol ar gyfer nodi anghenion penodol disgyblion. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn defnyddio ystod gyfyngedig iawn o ymyriadau penodol i gynorthwyo dysgwyr sydd ar ei hôl hi. Mae hyn yn golygu nad yw athrawon bob amser yn bodloni anghenion lleiafrif o ddisgyblion yn effeithiol, gan gynnwys y rhai yn y ganolfan adnoddau dysgu.

Yr amgylchedd dysgu: Digionol

Mae'r ysgol yn gymuned gefnogol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cymryd rhan yn llawn ym mhob maes o fywyd yr ysgol. Er enghraifft, caiff pob disgybl gyfleoedd i fynychu clybiau ar ôl yr ysgol ac ymuno â chydbwyllgorau ysgol. Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda i godi ymwybyddiaeth disgyblion o amrywiaeth. Er enghraifft, fe wnaeth ymwelydd o Sansibar helpu disgyblion i ddeall bywydau pobl o ddiwylliannau eraill.

Mae adeilad yr ysgol yn darparu amgylchedd deniadol, golau ac ysgogol ar gyfer disgyblion. Mae ystafelloedd dosbarth wedi'u trefnu'n dda ac yn cynnwys adnoddau sy'n gweddu i anghenion disgyblion ym mhob maes, gan gynnwys amrywiaeth addas o adnoddau TGCh. Mae arddangosfeydd deniadol yn addysgiadol ac yn cyflwyno gwaith y disgyblion yn dda ar y cyfan. Mae tir yr ysgol yn eang, ond nid yw wedi cael ei gynnal na'i ddatblygu'n effeithiol am y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, nid yw'r tir yn cefnogi dysgu na chwarae'r disgyblion cystal ag y gallent. Nid yw'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi'i ddatblygu'n ddigonol ac nid yw'n darparu cyfleoedd priodol iddynt ddysgu y tu allan yn effeithiol nac yn ddiogel.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
--

Digonol

Arweinyddiaeth: Anfoddhaol

Mae newidiadau sylweddol mewn staffio dros y blynyddoedd diwethaf wedi achosi aflonyddwch i redeg yr ysgol yn esmwyth ac maent wedi cael effaith negyddol ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r rhain wedi ei gwneud yn anodd i arweinwyr sicrhau cysondeb mewn arfer ar draws yr ysgol. Yn ddiweddar iawn, bu ffocws o'r newydd ar sicrhau ymrwymiad pob un o'r staff i gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae gan y pennaeth dros dro ac aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth rolau a chyfrifoldebau clir erbyn hyn sy'n canolbwyntio'n briodol ar wella'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae lefel yr arweinyddiaeth ar y cyd wedi amrywio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn golygu nad yw uwch arweinwyr wedi dilyn prosesau rheoli pwysig yn rheolaidd ac yn drylwyr. Er enghraifft, nid yw uwch arweinwyr wedi rheoli perfformiad yn unol â gofynion, ac nid yw staff wedi ymgymryd â gweithgareddau hunanarfarnu yn ddigon rheolaidd a thrylwyr i sicrhau eu bod yn gallu barnu gwaith yr ysgol yn gywir ym mhob maes. Nid yw uwch arweinwyr wedi cynnal trosolwg da o brosesau a gweithdrefnau. Mae hyn wedi arwain at arfer aneffeithiol mewn rhai meysydd pwysig, gan gynnwys diogelu iechyd a diogelwch disgyblion.

Mae gan gadeirydd ac is-gadeirydd corff llywodraethol yr ysgol ddealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau'r ysgol mewn perthynas â safonau disgyblion. Maent yn gefnogol i waith yr ysgol, ac fel aelodau o'r pwyllgor safonau, maent yn darparu lefel dda o her i uwch arweinwyr mewn perthynas â deilliannau disgyblion. Mae llywodraethwyr eraill yn cael gwybodaeth am safonau disgyblion, deilliannau hunanarfarnu'r ysgol a chynllunio gwelliant yr ysgol, ond nid yw cyfarfodydd y corff llywodraethol llawn yn canolbwyntio'n ddigon da ar y meysydd allweddol hyn ac nid ydynt yn galluogi'r rhan fwyaf o lywodraethwyr i ddeall yn llawn beth yw heriau'r ysgol, nac yn darparu cyfleoedd addas iddynt gyfrannu eu syniadau a'u hawgrymiadau.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae arweinwyr yr ysgol wedi nodi'n gywir llawer o'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol mewn perthynas â safonau disgyblion ac agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol. Trwy ddadansoddi data perfformiad ac arsylwi gwersi, maent wedi nodi gwendidau yng ngwaith ysgrifennu a rhif disgyblion. Trwy graffu ar lyfrau, sy'n cael ei wneud gan arweinwyr pynciau a'i rannu â staff eraill, nodwyd anghysondebau mewn meysydd fel gwahaniaethu, darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, ac ansawdd marcio athrawon. Ceir cyswllt clir rhwng canfyddiadau hunanarfarnu'r ysgol a'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol a'r cynllun gwella carlam, er bod athrawon yn ei gweld yn ddryslyd cael dau gynllun. Mae strategaethau i fynd i'r afael â meysydd a amlygwyd wedi bod yn eithaf llwyddiannus. Er enghraifft, mae cyflwyno rhaglen fathemateg ryngweithiol wedi gwella medrau a hyder disgyblion mewn rhif yn sylweddol, ac mae strategaethau newydd i addysgu elfennau o lythrennedd yn codi safonau mewn dealltwriaeth disgyblion o ffoneg.

Er gwaethaf y llwyddiannau nodedig hyn, nid yw prosesau hunanarfarnu wedi bod yn ddigon trylwyr i nodi gwendidau mewn meysydd eraill, yn enwedig mewn perthynas ag elfennau pwysig o ofal, cymorth ac arweiniad, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae uwch arweinwyr wedi methu nodi diffygion sylweddol yn yr ysgol dros gyfnod o sawl blwyddyn. Mae hyn yn golygu nad yw lleiafrif o ddisgyblion bob amser wedi cael y cymorth targedig sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd da mewn meysydd y maent yn eu cael yn anodd a phan fyddant ar ei hôl hi.

Gweithio mewn partneriaeth: Digonol

Mae gan yr ysgol bartneriaeth dda â rhieni. Mae athrawon a rhieni yn datblygu llyfryn am y plant cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod staff yr ysgol yn ymwybodol o anghenion y plant ac yn gallu trefnu darpariaeth briodol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae plant ifanc yn ymgynefino'n gyflym ag arferion yr ysgol ac maent yn barod i ddysgu. Mae'r ysgol yn cynnal sesiynau addysgiadol ar gyfer rhieni plant hyn i'w helpu i gefnogi dysgu eu plant. Er enghraifft, mae sesiynau medrau sylfaenol yn canolbwyntio ar helpu rhieni i ddeall sut i helpu eu plant i ddarllen.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda phartneriaid eraill hefyd, fel yr awdurdod lleol, y tîm Cymunedau yn Gyntaf a'r swyddog cymorth heddlu cymunedol. Er enghraifft, mae sesiynau wythnosol sy'n cael eu trefnu trwy'r tîm Cymunedau yn Gyntaf yn helpu disgyblion i ddysgu sut gall bwyd ac ymarfer corff eu helpu i fod yn iach.

Mae athrawon yn y Cyfnod Sylfaen wedi cymryd rhan mewn cymunedau sy'n dysgu gydag ysgolion eraill yn yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'r cysylltiadau hyn wedi cael effaith gyfyngedig ar arfer athrawon, er enghraifft ar ddefnyddio'r awyr agored i gefnogi dysgu'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer disgyblion sy'n symud i'r ysgol uwchradd, ac mae wedi gweithio gydag ysgolion lleol eraill i ariannu athro Cymraeg arbenigol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith hyn ar safonau disgyblion yn y Gymraeg.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u medrau a'u gwybodaeth arbenigol. Ceir rhai enghreifftiau o gydweithio effeithiol rhwng unigolion a grwpiau o staff sydd wedi gwella cynllunio a gwahaniaethu gan athrawon. Mae cysylltiadau cryf rhwng rheolwyr medrau sylfaenol yn yr awdurdod lleol wedi cefnogi gwelliant sylweddol mewn darpariaeth llythrennedd a rhifedd yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae athrawon yn myfyrio ar eu harfer eu hunain neu'n rhannu arfer dda ymhlith eu hunain yn gyfyngedig. Caiff cynorthwywyr addysgu eu rheoli'n dda ar y cyfan ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cyfraniad cryf at gefnogi cynnydd ac ymddygiad disgyblion.

Mae pwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn monitro gwariant yn briodol. Mae aelodau yn seilio penderfyniadau gwariant ar flaenoriaethau'r ysgol a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol bob amser yn sicrhau'r gwerth gorau o'i gwariant. Mae'n sicrhau bod y grant

amddifadedd disgyblion yn cefnogi anghenion pob disgybl sy'n cael prydau ysgol am ddim, a bod staff yn monitro cynnydd y grŵp hwn o ddisgyblion yn benodol. At ei gilydd, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill ar y lefelau disgwyliedig ond ddim cystal ar y lefelau sy'n uwch na'r disgwyl.

O ystyried y safonau digonol a gyflawnir gan ddisgyblion ar y cyfan, a'r gwendidau mewn agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian yn unig.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6752352 - Ysgol Gymunedol Twynyrodyn

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	350
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	17.8
Grŵp PYD	3 (16%<PYD<=24%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	38	39	47
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	92.1	84.6	85.1
Chwarter meincnod	1	2	3
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	38	39	47
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	92.1	87.2	85.1
Chwarter meincnod	2	3	3
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	42.1	25.6	21.3
Chwarter meincnod	1	3	4
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*
Datblygiad mathemategol (MDT)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	38	39	47
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	92.1	87.2	89.4
Chwarter meincnod	2	3	3
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	34.2	28.2	19.1
Chwarter meincnod	1	2	4
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	38	39	47
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	94.7	100.0	97.9
Chwarter meincnod	3	1	2
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	55.3	43.6	51.1
Chwarter meincnod	1	2	2

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6752352 - Ysgol Gymunedol Twynyrodyn

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	350
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	17.8
Grŵp PYD	3 (16%<PYD<=24%)

Cyfnod allweddol 2

	2011	2012	2013	2014
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	41	39	45	36
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	82.9	87.2	86.7	88.9
Chwarter meincnod	3	3	2	2
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	41	39	45	36
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	85.4	87.2	86.7	91.7
Chwarter meincnod	3	3	3	2
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	41.5	38.5	40.0	33.3
Chwarter meincnod	2	2	1	3
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	41	39	45	36
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	85.4	92.3	86.7	88.9
Chwarter meincnod	3	2	3	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	31.7	38.5	35.6	30.6
Chwarter meincnod	3	2	2	3
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	41	39	45	36
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	95.1	94.9	86.7	91.7
Chwarter meincnod	2	2	3	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	46.3	43.6	40.0	33.3
Chwarter meincnod	1	2	2	3

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi ar wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru trwy ddilyn y ddolen gyswllt isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur cynradd (cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	105	105 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	101	96 95%	5 5%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	102	100 98%	2 2%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	105	105 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	102	99 97%	3 3%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	104	104 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	105	104 99%	1 1%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	104	103 99%	1 1%	Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	104	102 98%	2 2%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	104	101 97%	3 3%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	101	61 60%	40 40%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	103	73 71%	30 29%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	25	13 52%	11 44%	1 4%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	25	19 76%	6 24%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	25%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	25	20 80%	4 16%	0 0%	0 0%	1	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	25	18 72%	7 28%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	25	7 28%	15 60%	0 0%	0 0%	3	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	45%	4%	1%		
Teaching is good.	25	14 56%	10 40%	0 0%	0 0%	1	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	25	14 56%	10 40%	0 0%	0 0%	1	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed a gwneud ei orau.
		63%	33%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	25	13 52%	12 48%	0 0%	0 0%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	25	12 48%	11 44%	0 0%	0 0%	2	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	33%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	25	14 56%	11 44%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	25	14 56%	10 40%	0 0%	1 4%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	23	11 48%	8 35%	0 0%	0 0%	4	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	34%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	25	11 44%	9 36%	4 16%	1 4%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		49%	40%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	25	15 60%	8 32%	2 8%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	23	11 48%	6 26%	2 9%	0 0%	4	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		45%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	25	14 56%	10 40%	0 0%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb.
		56%	38%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	22	10 45%	6 27%	0 0%	0 0%	6	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	33%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	25	12 48%	11 44%	1 4%	0 0%	1	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	38%	5%	1%		
The school is well run.	25	11 44%	12 48%	0 0%	1 4%	1	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	32%	3%	1%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Jane Mccarthy	Arolygydd Cofnodol
Sarah Jane Morgan	Arolygydd Tîm
Catherine Mary Jenkins	Arolygydd Lleyg
Sharon Adele Davies	Arolygydd Cymheiriaid
Neil Clode	Arolygydd Cymheiriaid
Lauren Cairns	Enwebai'r Ysgol

Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.